


# Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)

## Briff Ymchwil

Ionawr 2020



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)

Gellir cael rhagor o gopiâu o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6219**

E-bost: [Manon.George@Cynulliad.Cymru](mailto:Manon.George@Cynulliad.Cymru)

Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Blog: [SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)

LinkedIn: [Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/y-ymchwil-y-senedd)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
**Ymchwil y Senedd**

# Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)

## Briff Ymchwil

Ionawr 2020

### **Awduron:**

Manon George, Aled Evans a Rhun Davies

### **Trosolwg o'r papur:**

Ar 19 Rhagfyr 2019, cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael). Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r Bil gan gynnwys y cefndir i gyflwyno'r Bil, y prif ddarpariaethau, cydsyniad deddfwriaethol ac asesiad effaith Llywodraeth y DU.



Y Cynulliad

BREXIT

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Cefndir y Bil .....</b>	<b>2</b>
<b>3. Prif ddarpariaethau'r Bil .....</b>	<b>4</b>
Y cyfnod gweithredu .....	5
Cyfraith yr UE yn y DU a goruchwyliaeth seneddol.....	8
Hawliau dinasyddion.....	8
Y setliad ariannol.....	10
Y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon .....	11
Y trafodaethau ynghylch y berthynas yn y dyfodol .....	12
Pleidlais ystyrion.....	13
Cychwyn.....	13
Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil .....	13
<b>4. Cydsyniad Deddfwriaethol .....</b>	<b>14</b>
Asesiad Llywodraeth Cymru .....	14
Cymalau y mae angen cydsyniad arnynt.....	16
Llywodraeth yr Alban .....	18

<b>5. Asesiad Effaith .....</b>	<b>19</b>
Barn y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio ar Asesiad Effaith y Bil .....	19
Cost .....	20
Senario dim cytundeb.....	20
Y setliad ariannol.....	20
Y cyfnod gweithredu .....	21
Y Protocol Diwygiedig ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon .....	21
<b>6. Y camau nesaf .....</b>	<b>23</b>

## 1. Cyflwyniad

Ar 19 Rhagfyr 2019, ar ôl i Lywodraeth y DU sicrhau mwyafrif yn yr etholiad cyffredinol, ailgyflwynwyd **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael)** ('y Bil') yn Nhŷ'r Cyffredin.

Prif ddiben y Bil yw gweithredu'r Cytundeb Ymadael y cytunodd y DU a'r UE arno ar 17 Hydref 2019 fel ei fod yn cael effaith gyfreithiol mewn cyfraith ddomestig.

Os na chaiff y Bil ei basio erbyn 31 Ionawr 2020 i roi Bil y Cytundeb Ymadael ar waith yn ddomestig, y sefyllfa gyfreithiol yn niffyg unrhyw drefniadau eraill yw y bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, oni bai fod y Cyngor Ewropeaidd yn caniatáu estyniad i gyfnod negodi Erthygl 50.

Mae'r papur hwn yn rhoi'r cefndir i'r Bil; cyflwyniad i'r prif ddarpariaethau; crynodeb o'r cymalau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol arnynt; a throsolwg o asesiad effaith y Bil.

## 2. Cefndir y Bil

Bydd y Cytundeb Ymadael yn gytundeb rhyngwladol sy'n rhwymol yn gyfreithiol ond ni fydd yn dod i rym yn awtomatig yng nghyfraith y DU. Yn hytrach, bydd angen iddo gael ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig er mwyn iddo gael effaith gyfreithiol.

Ym mis **Tachwedd 2017** cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r Cytundeb Ymadael yn cael ei weithredu mewn cyfraith ddomestig drwy ddeddfwriaeth a basiwyd gan Senedd y DU.

Ar 27 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn ar **Ddeddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE**.

Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, gwrthododd Senedd y DU y Cytundeb Ymadael y cytunwyd arno gan negodwyr 27 Aelod-wladwriaeth yr UE (yr UE27) a'r cyn-Brif Weinidog Theresa May ym mis Tachwedd 2018 ar dri achlysur.

Ar 24 Mai 2019, cyhoeddodd Theresa May y byddai'n ymddiswyddo ddydd Gwener 7 Mehefin, gan sbarduno etholiad am arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol.

Daeth Boris Johnson yn Brif Weinidog ar 24 Gorffennaf 2019 ac **yn ei araith gyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin** y diwrnod wedyn, cyhoeddodd ei fwriad i ailnegodi'r Cytundeb Ymadael gan hepgor y trefniadau o ran ffin Iwerddon os metha popeth arall (y backstop).

Ar 17 Hydref 2019, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r UE eu bod wedi cytuno ar **gytundeb** ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE a **datganiad gwleidyddol diwygiedig ar eu perthynas yn y dyfodol**. Mae'r cytundeb diwygiedig yn cynnwys **protocol newydd ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon** sy'n golygu y byddai Gogledd Iwerddon yn dilyn cod tollau a rheolau TAW yr UE, ynghyd â'r gorchymyn rheoleiddio ar nwyddau, ond y byddai'n aros o fewn tiriogaeth tollau'r DU. Byddai'r trefniant newydd hwn ar gyfer ynys Iwerddon yn berthnasol am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd ac yna byddai ei barhad yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'r Datganiad Gwleidyddol diwygiedig yn cefnogi cytundeb masnach rydd dwys ac 'uchelgeisiol' â'r UE a chytundebau cydweithredu mewn sectorau eraill.

Cefnogwyd y cytundeb diwygiedig gan yr UE27 yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Hydref 2019. Ar ochr yr UE, bydd y cytundeb bellach yn destun cadarnhad gan

Senedd Ewrop cyn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Ewropeaidd.

Cyhoeddodd Prif Weinidog y DU sesiwn eithriadol o Senedd y DU ddydd Sadwrn 19 Hydref 2019 i geisio cynnal pleidlais ystyrlon ar delerau'r **cytundeb ymadael diwygiedig**. Mae'r unig newidiadau sylweddol y cytunwyd arnynt i destun y Cytundeb Ymadael, o'i gymharu â'r hyn y cytunwyd arno gan Theresa May, yn ymwneud â'r Protocol ar Ogledd Iwerddon ac Iwerddon.

Methodd Llywodraeth y DU â sicrhau cefnogaeth i'r Cytundeb Ymadael. Yn lle hynny pleidleisiodd Senedd y DU o blaid gwelliant i gynnig y Llywodraeth a oedd yn nodi na ellid cynnal pleidlais ystyrlon ar y cytundeb diwygiedig tan fod y Senedd wedi trafod a phasio'r ddeddfwriaeth i weithredu'r cytundeb ymadael.

Ar ôl methu â sicrhau'r bleidlais, roedd yn rhaid i'r Prif Weinidog gydymffurfio â gofynion Deddf 'Benn' (**Deddf Ymadael â'r UE (Rhif 2) 2019**) drwy ofyn am estyniad gan y Cyngor Ewropeaidd i'r cyfnod negodi hyd at 31 Ionawr 2020.

Ar 22 Hydref, cynhaliwyd **pleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin** i gynnig Bil yr UE (Cytundeb Ymadael), a gyflwynwyd y diwrnod blaenorol. Pasiodd y Bil i'r cam nesaf o 329 o bleidleisiau yn erbyn 299. Fodd bynnag, gwrthodwyd rhaglen graffu Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil a chyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gohirio nes bod yr UE yn dod i benderfyniad ynghylch estyniad.

Ar 23 Hydref, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** yn ymwneud â'r Bil. Roedd y Memorandwm yn nodi na allai Llywodraeth Cymru argymhell bod y Cynulliad yn rhoi ei gydsyniad deddfwriaethol i'r Bil. Argymhellodd Llywodraeth yr Alban hefyd **na ddylid rhoi cydsyniad i'r Bil**.

Ar 28 Hydref, cadarnhaodd Llywydd y Cyngor Ewropeaidd y byddai'r UE yn rhoi estyniad i'r DU hyd at 31 Ionawr ond y byddai'n rhoi cyfle i'r DU adael yn gynharach pe bai'r Cytundeb Ymadael yn cael ei gadarnhau ynghynt.

Ar 29 Hydref cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil byr yn deddfu ar gyfer etholiad cynnar ar 12 Rhagfyr 2019. Pasiwyd y cynnig o 438 o bleidleisiau yn erbyn 20.

Diddymwyd y Senedd ar 6 Tachwedd 2019 a chwympodd y Bil gwreiddiol. Ar ôl sicrhau mwyafrif yn yr etholiad cyffredinol, ailgyflwynodd Llywodraeth Geidwadol y DU y Bil yn dilyn Araith y Frenhines ar 19 Rhagfyr 2019. Y diwrnod wedyn, cymeradwywyd Ail Ddarlleniad y Bil o 358 o bleidleisiau yn erbyn 234.

### 3. Prif ddarpariaethau'r Bil

Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd ar 19 Rhagfyr wedi'i rannu yn bum rhan sy'n cynnwys 42 o adrannau a phum Atodlen.

Yn gryno, mae'r Bil:

- yn galluogi Llywodraeth y DU i gadarnhau'r Cytundeb Ymadael;
- yn diwygio Deddf yr UE (Ymadael) 2018 i roi effaith yng nghyfraith y DU i'r darpariaethau yn y Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â'r cyfnod gweithredu, amddiffyn hawliau dinasyddion a materion eraill yn ymwneud â gwahanu;
- yn rhoi effaith i Gytundeb Gwahanu EFTA yr AEE rhwng y DU a Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein, a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir rhwng y DU a'r Swistir;
- yn galluogi'r DU i wneud taliadau i'r UE er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y Cytundeb Ymadael;
- yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i weithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon; ac
- yn darparu ar gyfer cymhwyso darpariaethau'r Cytundeb Ymadael mewn cyfraith ddomestig yn uniongyrchol ond hefyd yn ailddatgan sofraniaeth seneddol.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Bil yn gwneud nifer o ddiwygiadau i **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**. Mae Deddf Ymadael 2018 yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (y Ddeddf y daw cyfraith yr UE yn rhan o gyfraith y DU oddi tani ar hyn o bryd), ond yn trosi deddfau'r UE sydd ar waith ar hyn o bryd yn y DU yn gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael. Yn ôl paragraff 18 o'r **Nodiadau Esboniadol** i'r Bil:

The Bill is designed to work in conjunction with the EU (Withdrawal) Act 2018. Provisions relating to citizens' rights and the financial settlement will remain separate to that Act, but the implementation of other parts of the Withdrawal Agreement and the additional commitments will require amendments to the Act.

### Y cyfnod gweithredu

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno y bydd cyfnod gweithredu o'r diwrnod ymadael hyd at 31 Rhagfyr 2020 (Erthygl 126) cyn i berthynas newydd y DU â'r UE ddod i rym.

Mae'r Bil yn diwygio Deddf Ymadael 2018 i roi effaith i Ran 4 o'r Cytundeb Ymadael, sy'n ymwneud â'r cyfnod gweithredu.

Mae'r Cytundeb Ymadael yn cynnwys yr opsiwn i'r cyfnod gweithredu gael ei ymestyn unwaith drwy benderfyniad yn y Cyd-bwyllgor, cyn 1 Gorffennaf 2020, am hyd at flwyddyn neu ddwy flynedd. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2019 yn gwahardd unrhyw un o Weinidogion y DU rhag cytuno i ymestyn y cyfnod gweithredu yn y Cyd-bwyllgor (Cymal 33). Yn ôl y **Llywodraeth y DU**, pwrpas y ddarpariaeth ychwanegol hon yw ailddatgan ymrwymiad Llywodraeth y DU na fydd yn ymestyn y cyfnod gweithredu y tu hwnt i 31 Rhagfyr 2020.

Roedd cymal 30 o'r Bil blaenorol yn darparu y dylai unrhyw estyniad i'r cyfnod gweithredu fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Tŷ'r Cyffredin, gan olygu na allai Llywodraeth y DU gytuno ar estyniad oni bai fod Tŷ'r Cyffredin wedi pasio cynnig yn cytuno i'r estyniad arfaethedig. Mae'r Cymal hwn wedi'i dynnu o'r Bil fel y'i cyflwynwyd ar 19 Rhagfyr.

Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yn y DU o dan y telerau a nodir yn y Cytundeb Ymadael. Er mwyn sicrhau y gall cytuniadau a chyfraith yr UE barhau i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod gweithredu, mae'r Bil yn diwygio Deddf Ymadael 2018 sy'n darparu ar gyfer diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ar y diwrnod ymadael. Mae'r diwygiadau'n sicrhau bod Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn parhau i gael effaith, er y bydd yn cael ei diddymu ar y diwrnod ymadael, hyd at ddiwedd y cyfnod gweithredu (Cymal 1).

I bob pwrpas, mae hyn yn golygu na fydd Deddf 1972 yn cael ei diddymu tan ddiwedd y cyfnod gweithredu, ac o ganlyniad bydd rôl Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd hefyd yn parhau yn ystod y cyfnod hwn. Mae gohirio pryd y caiff Deddf 1972 ei diddymu hefyd yn golygu y bydd y cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â chydymffurfio â chyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod gweithredu.

Mae'r Bil hefyd yn addasu'r diffiniad o gytuniadau ('Treaties') a chytuniadau'r UE ('EU Treaties') yn Neddf 1972 i gynnwys y Cytundeb Ymadael ei hun i sicrhau bod y DU drwy Ddeddf 1972 yn rhoi cyfraith yr UE ar waith yn y DU at ddibenion y

cyfnod gweithredu fel y nodir yn y Cytundeb Ymadael. Gan na fydd y DU yn Aelod-wladwriaeth mwyach yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd y DU yn gweithredu cyfraith yr UE fel y nodir yn y Cytundeb Ymadael.

Un o oblygiadau cadw effaith Deddf 1972 yn ystod y cyfnod gweithredu yw bod angen cadw'r ddeddfwriaeth ddomestig bresennol sy'n deillio o'r UE a'r cyfeiriadau sy'n gysylltiedig â'r UE hefyd.

Mae'r Bil yn diwygio Deddf Ymadael 2018 i ddarparu bod deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE, fel y mae ganddi effaith mewn cyfraith ddomestig yn union cyn y diwrnod ymadael, yn cael ei chadw fel ei bod yn parhau i gael effaith mewn cyfraith ddomestig yn ystod y cyfnod gweithredu (Cymal 2).

Er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod perthynas y DU â chyfraith yr UE i gael ei phennu gan y Cytundeb Ymadael, yn hytrach nag fel Aelod-wladwriaeth, mae'r Bil yn nodi nifer o 'glosiau' ('glosses') i esbonio sut y dylid dehongli cyfeiriadau at yr UE mewn deddfwriaeth ddomestig yn ystod y cyfnod gweithredu. Er enghraifft, mae unrhyw gyfeiriad at unrhyw rai o gyfreithiau neu gytuniadau'r UE mewn unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE ac sy'n parhau i gael effaith yn y DU yn ystod y cyfnod gweithredu i'w ddarllen fel y bo'n berthnasol yn y DU yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael. Yn yr un modd, bydd y cyfeiriadau at gyfraith yr UE yn y statudau datganoli yn cael eu darllen yng nghyd-destun y Cytundeb Ymadael. Mae'r eirfa yn Atodiad B i'r Nodiadau Esboniadol yn diffinio glosiau fel a ganlyn:

*Specific modifications to make clear the way that EU law terms should be read on the UK statute book, so that our laws continue to work during the implementation period.*

Mae'r Bil yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig yn Neddf Ymadael 2018 i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â'r cyfnod gweithredu (Cymalau 3 a 4). Nid yw pwerau gwneud rheoliadau'r Gweinidogion datganoledig yn ymestyn y tu hwnt i derfynau cymhwysedd datganoledig awdurdod datganoledig fel y'u diffinnir yng Nghymal 4.

Mae Deddf Ymadael 2018 yn gwneud darpariaeth i gyfraith yr UE gael ei throsi'n gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae cadw effaith Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 er mwyn caniatáu ar gyfer cyfnod gweithredu yn golygu bod angen gohirio'r gwaith o drosi cyfraith yr UE yn gyfraith yr UE a ddargedwir tan ddiwedd y cyfnod gweithredu hefyd. Mae'r Bil yn diwygio adran 2 o Ddeddf Ymadael 2018 fel bod y gwaith hwn yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod gweithredu yn hytrach nag ar y diwrnod ymadael (cymalau 25 a 26).

Mae is-adran newydd yng Nghymal 26 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhagfyr sy'n diwygio'r darpariaethau yn Neddf Ymadael 2018 sy'n darparu y byddai dyfarniadau Llys Cyfiawnder Ewrop a wnaed cyn Brexit yn parhau i fod yn rhwymol ar lysoedd y DU ar ôl y cyfnod gweithredu ac mai dim ond Goruchaf Lys y DU a allai wyro oddi wrth y dyfarniadau hynny. Mae'r ddarpariaeth newydd yn caniatáu i Weinidogion y DU, drwy reoliadau, nodi'r amgylchiadau lle gallai llysoedd eraill wyro o gyfraith achosion yr UE a ddargedwir ar ôl y cyfnod gweithredu.

Mae'r Bil hefyd yn diwygio'r darpariaethau yn Neddf Ymadael 2018 sy'n galluogi Gweinidogion i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. Fel y'i pasiwyd, mae Deddf Ymadael 2018 yn darparu y bydd y pŵer cywiro yn dod i ben ddwy flynedd ar ôl y diwrnod ymadael. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Ymadael 2018 fel y byddai'r pŵer yn dod i ben ddwy flynedd ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu yn hytrach na dwy flynedd ar ôl y diwrnod ymadael (Cymal 27). Bydd hyn hefyd yn berthnasol i bwerau cyfatebol Gweinidogion Cymru o dan adran 11 o ac Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd Gweinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig yn gallu cywiro unrhyw ddiffygion sy'n codi yn llyfr statud y DU ar ddiwedd y cyfnod gweithredu.

Mae'r Bil yn creu rôl i'r Pwyllgor Dethol Craffu Ewropeaidd mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE a fabwysiadwyd gan yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu (Cymal 29). Mae'r Bil yn diwygio Deddf Ymadael 2018 fel bod yn rhaid trafod a phleidleisio ar gynnig gan y Llywodraeth cyn pen 14 o ddiwrnodau os bydd adroddiad gan y Pwyllgor Dethol Craffu Ewropeaidd ynghylch deddfwriaeth a wnaed, neu ddeddfwriaeth a gaiff ei gwneud, gan yr UE, yn ystod y cyfnod gweithredu, yn nodi:

- bod y ddeddfwriaeth yn codi mater sydd o ddiddordeb cenedlaethol hanfodol i'r DU ym marn y Pwyllgor;
- bod y Pwyllgor wedi ystyried tystiolaeth briodol ac wedi ymgynghori â phwyllgorau dethol adrannol;
- a bod yr adroddiad yn nodi geiriad cynnig y Llywodraeth a gaiff ei gynnig yn Nhŷ'r Cyffredin.

Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2019 yn darparu ar gyfer rôl gyfatebol i Bwyllgor yr Undeb Ewropeaidd yn Nhŷ'r Arglwyddi, sef rhywbeth nad oedd wedi'i gynnwys yn y fersiwn flaenorol o'r Bil.

## Cyfraith yr UE yn y DU a goruchwyliaeth seneddol

Mae'r Bil yn mewnosod adran newydd yn Neddf Ymadael 2018 i roi effaith i Erthygl 4 o'r Cytundeb Ymadael sy'n darparu i'r Cytundeb Ymadael gynhyrchu'r un effeithiau cyfreithiol yn y DU ag y byddent yn yr UE a'i Aelod-wladwriaethau (Cymal 5). Mae hyn yn golygu y bydd hawliau a rhwymedigaethau a grëir neu sy'n codi yn rhinwedd y Cytundeb Ymadael neu oddi tano yn cael effaith uniongyrchol mewn cyfraith ddomestig a gellir dibynnu arnynt a'u gorfodi yn y llysoedd.

Mae'r Bil hefyd yn mewnosod adran newydd yn Neddf Ymadael 2018 i roi pŵer i Weinidogion y DU weithredu'r materion eraill yn ymwneud â gwahanu yn Rhan 3 o'r Cytundeb Ymadael sy'n anelu at ddarparu sicrwydd cyfreithiol i unigolion a busnesau rhwng diwedd y cyfnod gweithredu a dechrau'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE (Cymal 18). Yn ôl y Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, bydd y pŵer i weithredu'r darpariaethau hyn mewn cyfraith ddomestig yn golygu y gellir dod â chyfraith yr UE i ben yn y DU ar ddiwedd y cyfnod gweithredu. Rhoddir pŵer cyfatebol i Weinidogion Datganoledig.

Mae'r Bil yn cydnabod sofraniaeth Senedd y Deyrnas Unedig: it is recognised that the Parliament of the United Kingdom is sovereign (Cymal 38).

Mae'r Bil hefyd yn mewnosod adran newydd yn Neddf Ymadael 2018 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU gyflwyno adroddiad i Senedd y DU os bydd y DU a'r UE yn defnyddio gweithdrefnau anghydfod y Cyd-bwyllgor, y darperir ar eu cyfer o dan y Cytundeb Ymadael, ar ôl y cyfnod gweithredu (Cymal 30).

## Hawliau dinasyddion

Daeth y DU a'r UE i gytundeb ar hawliau dinasyddion ym mis Rhagfyr 2017. Nid yw'r elfen hon o'r Cytundeb Ymadael diwygiedig wedi newid ers y Cytundeb Ymadael y cytunwyd arno gan Theresa May ym mis Tachwedd 2018.

Mae Rhan 3 o'r Bil yn gwneud rhagor o ddarpariaethau sy'n ymwneud â gweithredu hawliau dinasyddion fel y'u nodir yn y Cytundeb Ymadael (a Chytundeb Gwahanu EFTA yr AEE a Chytundeb Hawliau Dinasyddion y Swistir) fel eu bod yn berthnasol yn uniongyrchol mewn cyfraith ddomestig. Mae hefyd yn ffordd o wneud iawn os na weithredir yr hawliau hyn yn briodol. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys:

- pwerau gwneud rheoliadau i nodi'r terfyn amser ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (Cymal 7), diogelu hawliau gweithwyr ffin (Cymal 8) a chyfyngu ar hawliau mynediad a phreswyllo (Cymal 9);
- diwygio'r darpariaethau alltudio presennol yn Neddf Mewnfudo 1971 a Deddf Ffiniau'r DU 2007 i adlewyrchu darpariaethau yn y Cytundeb Ymadael (Cymal 10); a
- pwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â rhai apeliadau yn erbyn penderfyniadau mewnfudo sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion (Cymal 11).

Mae'r Bil hefyd yn darparu y gall awdurdod priodol (gan gynnwys Gweinidogion Cymru wrth weithredu o fewn cymhwysedd datganoledig) wneud rheoliadau ar gyfer gweithredu elfennau'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â chymwysterau proffesiynol; cydlynu systemau nawdd cymdeithasol; a pheidio â gwahaniaethu a thrin pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y DU yn gyfartal (Cymalau 12-14).

Mae'r Bil yn sefydlu corff annibynnol, sef yr Awdurdod Monitro Annibynnol, i fonitro gweithrediad a chymhwysiad y rhan o'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion (Cymal 15). Nodir cyfansoddiad a swyddogaethau'r Awdurdod Monitro Annibynnol yn Atodlen 2 i'r Bil. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am benodi aelodau anweithredol yr Awdurdod Monitro Annibynnol a rhaid iddo sicrhau, cyhyd ag y bo modd, ei fod yn cynnwys aelod sy'n gwybod am yr amodau yng Nghymru, sy'n berthnasol i'r rhan o'r Cytundeb Ymadael sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion. Rhaid sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael gwybod pwy y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei gynnig a pham. Os bydd Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r penodiad arfaethedig o fewn mis, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi'r person hwnnw. Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r penodiad, gall yr Ysgrifennydd Gwladol naill ai benodi'r person beth bynnag neu gynnig person gwahanol i'w benodi.

Yn ôl **llythyr** oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, y mae'r newidiadau hyn yn rhoi rôl gref i weinidogion datganoledig o ran y penodiadau perthnasol i fwrdd yr Awdurdod Monitro Annibynnol, ac fe'u gwnaed i'r Bil cyn iddo gael ei gyflwyno gyntaf ym mis Hydref 2019 o ganlyniad i waith cydweithredol gan y Llywodraeth ar faterion a godwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019.

Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2019 hefyd yn galluogi llunio rheoliadau i drosglwyddo swyddogaethau'r Awdurdod Monitro Annibynnol i gorff cyhoeddus arall.



Roedd y fersiwn flaenorol o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Hydref 2019 yn mewnosod Atodlen newydd yn Neddf Ymadael 2018 ar 'Amddiffyn Hawliau Gweithwyr' (Cymal 34 ac Atodlen 4).

Roedd yr Atodlen newydd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion y DU sy'n cyflwyno Bil Llywodraeth i wneud datganiad na fyddant yn llithro yn ôl cyn yr ail ddarlleniad, gan ddweud na fydd y Bil yn peri i gyfraith unrhyw ran o'r DU fethu â rhoi hawliau'r UE a ddargedwir i weithwyr. Fel arall, pe na bai modd i Weinidog wneud datganiad na fyddai'n llithro yn ôl, gallai wneud datganiad i'r perwyl bod y Llywodraeth am i'r Tŷ fwrw ymlaen â'r Bil. Cyn gwneud y datganiad, byddai'r Gweinidog yn ymgynghori â chynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr.

Roedd yr Atodlen hefyd yn rhoi dyletswydd i gyflwyno adroddiadau gerbron y Senedd yn rheolaidd ar unrhyw ddeddfwriaeth newydd gan yr UE sy'n ymwneud â hawliau cyflogaeth neu fesurau diogelu o ran iechyd a diogelwch sy'n cael eu mabwysiadu a'u cyhoeddi. Os gwnaed deddfwriaeth newydd, roedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad nodi a yw'r gyfraith sydd ar waith yn y DU yn cynnig yr un mesurau diogelu ac os na, a oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu cymryd unrhyw gamau i weithredu hawliau gweithwyr newydd yr UE. Byddai'n rhaid i'r adroddiad fod wedi cael ei gymeradwyo gan ddau Dŷ'r Senedd a byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU fod wedi ymgynghori â chynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr.

Nid yw'r Atodlen hon yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2019. Yn lle hynny, cyhoeddwyd yn Araith y Frenhines y bydd hawliau gweithwyr yr UE yn cael eu hamddiffyn mewn Bil Cyflogaeth.

Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2019 hefyd yn dileu rhwymedigaethau presennol y Llywodraeth o dan adran 17 o Ddeddf Ymadael 2018 mewn perthynas â phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn yr UE sydd ag aelodau o'u teulu yn y DU (Cymal 37). Mae'r ddarpariaeth newydd yn disodli'r ddyletswydd ar Weinidogion y DU i ofyn am gytundeb â'r UE mewn perthynas ag aduno plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn y DU neu'r UE â'u teuluoedd, gyda gofyniad i wneud datganiad polisi i'r Senedd cyn pen dau fis ar ôl pasio'r Ddeddf yn nodi bwriad polisi Llywodraeth y DU mewn perthynas ag unrhyw drefniadau â'r UE yn y dyfodol.

## Y setliad ariannol

Daeth y DU a'r UE i gytundeb ar y setliad ariannol, y cyfeirir ato'n aml fel y bil ysgaru, ym mis Tachwedd 2017. Nid yw'r elfen hon o'r Cytundeb Ymadael wedi newid ers y Cytundeb Ymadael a drafodwyd gan Theresa May.

Bydd angen i'r DU dalu swm o arian i'r UE o ganlyniad i'w hymadawiad er mwyn bodloni'r ymrwymadau ariannol yr aeth iddynt fel Aelod-wladwriaeth. Mae'r Cytundeb Ymadael yn cynnwys cytundeb ar elfennau'r setliad ariannol, y fethodoleg ar gyfer cyfrifo cyfran y DU a'r amserlen dalu.

Mae'r Bil yn nodi sut y bydd y DU yn gwneud taliadau i fodloni'r ymrwymadau a nodir yn y Cytundeb Ymadael (Cymal 20).

Telir y taliadau o Gronfa Gyfunol y DU neu, os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu gwneud hynny, o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol.

Mae'r Bil yn darparu y bydd taliadau o'r fath yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021, ac ar ôl hynny daw'r rhan fwyaf o daliadau'r setliad ariannol yn rhan o awdurdodiad blynyddol Senedd y DU o wariant y Llywodraeth.

Mae'r Bil hefyd yn nodi y dylid talu ad-daliadau o'r UE i'r DU o'r Gronfa Gyfunol neu'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol.

Byddai'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Hydref 2019 wedi caniatáu i Weinidog y Coron ymestyn cyfnod y ddarpariaeth gwasanaeth sefydlog, sef y ddarpariaeth y byddai'r DU yn gwneud taliadau ariannol i'r UE oddi tani, y tu hwnt i fis Mawrth 2020. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i dileu o'r fersiwn newydd.

## Y Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon

Fel y nodwyd uchod, ar 17 Hydref 2019 cyhoeddwyd bod y DU a'r UE wedi cytuno ar brotocol newydd ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

Mae'r protocol newydd yn darparu trefniadau gwahanol i osgoi ffin galed ar dir ynys Iwerddon o'u cymharu â'r rhai y cytunwyd arnynt yn flaenorol gan Lywodraeth Theresa May

O dan y protocol newydd, byddai Gogledd Iwerddon yn dilyn y rhan fwyaf o reolau'r UE ar reoliadau o ran tollau, TAW a nwyddau yn y dyfodol ond byddent yn parhau yn nhiriogaeth tollau'r DU. Bydd nwyddau sy'n dod i mewn i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr yn defnyddio cod tollau a thariffau'r UE ac yn dilyn rheoliadau penodol yr UE ar nwyddau os byddant yn mynd i mewn i'r UE, neu os bydd perygl iddynt fynd i mewn i'r UE. Mae hyn yn golygu y byddai ffin reoleiddio ym Môr Iwerddon rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Byddai'r trefniant newydd hwn yn berthnasol am gyfnod o bedair blynedd i ddechrau ac yna byddai ei barhad yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae'r Bil yn diwygio Deddf Ymadael 2018 i roi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion y DU weithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon (Cymal 21) a rhoddir pwerau cyfatebol i Weinidogion Datganoledig (Cymal 22).

## Y trafodaethau ynghylch y berthynas yn y dyfodol

Roedd y Bil blaenorol a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019 yn cynnwys rôl ar gyfer Senedd y DU wrth drafod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol drwy fewnosod adran newydd yn Neddf Ymadael 2018 (Cymal 31).

Roedd y Bil blaenorol yn darparu y byddai'n rhaid gwneud datganiad cychwynnol o amcanion, yn nodi amcanion negodi Llywodraeth y DU, o fewn 30 o ddiwrnodau eistedd yn Nhŷ'r Cyffredin i'r diwrnod ymadael. Byddai'n rhaid i'r datganiad hwn fod yn gyson â'r Datganiad Gwleidyddol ar y berthynas yn y dyfodol. Roedd y Bil yn nodi na allai Llywodraeth y DU ddechrau trafod perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol heb fod Tŷ'r Cyffredin yn cymeradwyo'r datganiad. Byddai angen cymeradwyo unrhyw ddiwygiadau i'r amcanion yn y dyfodol hefyd.

Roedd y Bil blaenorol hefyd yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y DU i adrodd bob chwarter ar ôl y datganiad ar amcanion cyntaf fel bod y Senedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

Byddai'n rhaid i'r adroddiad chwarterol ar gynnydd tuag at gytuniad ar y berthynas yn y dyfodol gael ei gyflwyno i'r deddfwrfeydd a'r llywodraethau datganoledig. Fodd bynnag, ni fyddent wedi cael rôl ffurfiol wrth gymeradwyo unrhyw amcanion negodi neu gytuniad.

Roedd y Bil blaenorol yn darparu y byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU, ar ôl iddi ddod i gytundeb gwleidyddol ar ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol, gyflwyno datganiad ar y cytundeb hwnnw gerbron dau Dŷ'r Senedd a chopi o destun y cytuniad a drafodwyd. Ni fyddai'n bosibl cadarnhau'r Cytuniad oni bai fod Tŷ'r Cyffredin yn penderfynu ei gymeradwyo a bod Tŷ'r Arglwyddi heb bleidleisio yn erbyn ei gadarnhau o fewn 14 o ddiwrnodau. Pe bai Tŷ'r Arglwyddi yn pleidleisio yn erbyn ei gadarnhau, byddai'n rhaid i Weinidogion gyflwyno datganiad yn egluro pam eu bod yn dal i gredu y dylid cadarnhau'r cytuniad. Roedd y Bil blaenorol yn darparu y byddai'r broses hon yn disodli'r un yn Rhan 2 o Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010.

Mae'r holl ddarpariaethau hyn wedi'u tynnu o'r Bil fel y'i cyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2019.

## Pleidlais ystyrion

Mae'r Bil yn diddymu adran 13 o'r Ddeddf Ymadael sy'n darparu ar gyfer cymeradwyaeth seneddol i'r Cytundeb Ymadael a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol, fel na ellir cytuno ar y Cytundeb Ymadael oni bai fod Tŷ'r Cyffredin wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad (Cymal 31).

Yn ôl paragraff 319 o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil, caiff yr adran hon o'r Ddeddf Ymadael ei diddymu:

to ensure that the Withdrawal Agreement can be ratified in a timely and orderly manner, and to remove provisions that are no longer needed.

Mae'r Bil hefyd yn nodi nad yw Rhan 2 o Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn berthnasol i gadarnhau'r Cytundeb Ymadael, sy'n golygu nad oes rhaid i Lywodraeth y DU gyflwyno copi o'r cytundeb terfynol gerbron y Senedd am gyfnod o 21 o ddiwrnodau eistedd (Cymal 32).

## Cychwyn

Bydd y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn cychwyn pan fydd y Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol.

Bydd y darpariaethau sy'n weddill yn cychwyn ar y diwrnod neu'r diwrnodau y darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau. Er enghraifft, bydd angen i'r darpariaethau sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion a'r cyfnod gweithredu ddod i rym ar y diwrnod ymadael.

## Dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Bil

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y dogfennau a ganlyn i gyd-fynd â'r Bil:

- **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig**
- **Nodiadau Esboniadol**
- **Memorandwm y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**
- **Asesiad Effaith y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio**

## 4. Cydsyniad Deddfwriaethol

O dan y Confensiwn Cydsyniad Deddfwriaethol, nid yw Senedd y DU yn deddfu fel rheol mewn meysydd cymhwysedd datganoledig na'n deddfu i newid cymhwysedd y deddfwrfeydd datganoledig na llywodraethau heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig.

Mae'r **Adran ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru** yn gofyn am gydsyniad. Mae crynodeb o asesiad Llywodraeth y DU o ba gymalau y mae angen cydsyniad arnynt yn **Atodiad A** i Nodiadau Esboniadol y Bil.

### Asesiad Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar 23 Hydref 2019 i'w ystyried gan y Cynulliad mewn ymateb i'r Bil blaenorol a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019. Ar ôl i'r Bil gael ei ailgyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Rhagfyr 2019, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar 6 Ionawr 2020 yn ymwneud â'r Bil newydd. Mae'r Memorandwm a gyflwynwyd ar 6 Ionawr yn gyffredinol debyg i'r Memorandwm a gyflwynwyd yn flaenorol. Gwnaed rhai newidiadau i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng y Bil presennol â'r fersiwn flaenorol o'r Bil.

Ym mharagraff 59 o'r Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi:

ni all Llywodraeth Cymru argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ei gydsyniad i'r Bil hwn.

Amlinellir y rhesymau dros ei hargymhelliad ym mharagraffau 49 i 57 o'r Memorandwm.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i bryderu am nifer o faterion a godwyd eisoes o ran y Cytundeb Ymadael, fel y nodir ym mharagraff 51:

Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a gyhoeddwyd gennym ar gyfer y Bil fel y'i cyflwynwyd fis Hydref, roeddem yn dweud na allem gymeradwyo'r 'cytundeb' ymadael cyffredinol a ffefrid gan Lywodraeth y DU am nad oedd y Datganiad Gwleidyddol a oedd yn gysylltiedig ag ef yn rhoi llawer o sicrwydd y byddai'r berthynas â'r UE yn y dyfodol yn bartneriaeth glos iawn fel yr hyn a nodwyd yn ein Papur Gwyn Diogelu Dyfodol Cymru – safbwynt a oedd wedi'i gymeradwyo sawl gwaith gan y Cynulliad Cenedlaethol. Roeddem yn anfodlon hefyd nad oedd y Cytundeb Ymadael yn rhoi terfyn ar y posibilrwydd o ymadael heb cytundeb ar ddiwedd y cyfnod gweithredu ac nad oedd yn darparu'r

mesurau diogelu yr ydym yn awyddus i'w cael ar gyfer hawliau gweithwyr. Mae'r pryderon hynny ynglŷn â'r cytundeb yn parhau.

Mae'r pryderon eraill a godir gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm yn cynnwys:

- y ffaith bod y cymal yn y fersiwn flaenorol o'r Bil a oedd yn rhoi rôl i'r Senedd wrth oruchwylio'r negodiadau am y berthynas â'r UE yn y dyfodol wedi'i ddileu;
- y gwaharddiad ar geisio estyniad i'r cyfnod pontio sy'n ailgodi'r posibilrwydd, ar ddiwedd y cyfnod pontio, naill ai na fydd cytundeb o gwbl ar gyfer cysylltiadau masnach â'r UE yn y dyfodol neu y bydd cytundeb annigonol yn cael ei lunio ar frys;
- y ffaith nad oes cyfyngiadau ar y pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer gweithredu Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon, sy'n golygu y gallai pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol gael eu defnyddio i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006;
- cymal 38, sy'n datgan sofraniaeth y Senedd, a ddylai, ym marn Llywodraeth Cymru, gynnwys cyfeiriadau hefyd at y Deddfau Seneddol a sefydlodd y setliadau datganoli ac at y ffaith nad yw Senedd y DU fel arfer yn deddfu ynghylch materion datganoledig heb gydsyniad y Deddfwrfeydd Datganoledig;
- datblygiadau technegol o ran cymal a dehongliad cyfraith yr UE a ddargedwir a'r gyfraith berthnasol ar y cytundeb gwahanu, a ddylai gynnwys Gweinidogion Cymru fel ymgynghoreion statudol ar gyfer rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Llywodraeth y DU sy'n darparu ar gyfer pa lysoedd neu dribiwnlysoedd na fydd yn cael eu rhwymo gan unrhyw gyfraith achosion yr UE a ddargedwir;
- y ffaith y gellir trosglwyddo swyddogaethau'r Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer hawliau dinasyddion i gyrff cyhoeddus eraill. Mae hwn yn bryder am fod mesurau ar waith i sicrhau bod yr Awdurdod yn cynnwys aelod anweithredol sy'n gyfarwydd â'r amodau yng Nghymru yn ymwneud â'r materion perthnasol. Nid yw'r un mesur ar waith ar gyfer unrhyw gyrff cyhoeddus eraill sy'n ymgymryd â swyddogaethau'r Awdurdod.

Er gwaethaf y pryderon hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen deddfwriaeth i ddarparu "eglwurder a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau" ac mai Senedd y DU a fydd yn ddelfrydol yn gyfrifol am ddeddfwriaeth o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Bil yn rhoi cryn dipyn o sicrwydd i ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU, ac yn cytuno hefyd â'r dull

a gymerir yn y Bil drafft o ran cynnal y sefyllfa gyfredol yn fras o ran cymhwysio cyfraith yr UE yn y DU yn ystod y cyfnod pontio.

### Cymalau y mae angen cydsyniad arnynt

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir: ni all gefnogi rhoi cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Yn ei Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad ar gymalau 1 i 6, cymalau 12 i 19, cymalau 21 i 22, cymalau 25 i 29, cymal 36, cymalau 38 i 42, Atodlenni 1 i 2 ac Atodlenni 4 a 5.

Mae'r cymalau y nodwyd gan Lywodraeth Cymru bod angen cydsyniad arnynt yn cynnwys y cymalau hynny a restrwyd gan Lywodraeth y DU yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n nodi cymalau ychwanegol hefyd nad oedd Llywodraeth y DU wedi nodi bod angen cydsyniad arnynt. Mae'r cymalau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai y mae angen cydsyniad arnynt yn debyg yn fras i'r cymalau hynny a nodwyd gan Lywodraeth yr Alban.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau a ganlyn:

- *Cymalau 1 a 2*: Cyfraith a gadwyd ar gyfer y cyfnod gweithredu;
- *Cymalau 3 a 4*: Pwerau atodol yn ymwneud â'r cyfnod gweithredu, a phwerau sy'n cyfateb i gymal 3 sy'n cynnwys awdurdodau datganoledig;
- *Cymalau 5 a 6*: Y broses gyffredinol o weithredu gweddill y Cytundeb Ymadael a chytundebau EFTA yr AEE a'r Swistir;
- *Cymalau 12 i 14, cymal 16 ac Atodlen 1*: Cydnabod cymwysterau proffesiynol, cydgysylltu systemau nawdd cymdeithasol a pheidio â gwahaniaethu, hawliau gweithwyr a thriniaeth gyfartal ac ati a phwerau awdurdodau datganoledig;
- *Cymal 15 ac Atodlen 2*: Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion;
- *Cymalau 18 a 19*: Y prif bŵer mewn cysylltiad â materion gwahanu eraill a phwerau mewn cysylltiad â chymal 18 yn ymwneud ag awdurdodau datganoledig;
- *Cymal 21 a 22*: Y prif bŵer mewn cysylltiad â'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon, a phwerau sy'n cyfateb i gymal 21 yn ymwneud ag awdurdodau datganoledig;

- *Cymal 27*: Ymdrin â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir;
- *Cymal 28*: Pwerau codi ffioedd ategol; a
- *Cymalau 40 i 42 ac Atodlenni 4 a 5*: Rheoliadau, Darpariaethau Canlyniadol a'r cymal o ran rhychwant, cychwyn a theitl byr.

Yn ogystal â'r cymalau a restrir uchod, mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â nifer o gymalau nad yw Llywodraeth y DU wedi nodi bod angen cydsyniad arnynt, gan gynnwys:

- *Cymalau 17 a 39*: Cymalau dehongli mewn cysylltiad â Rhan 3 a'r Ddeddf;
- *Cymalau 25 a 26*: Dargadw cyfraith yr UE a gadwyd ar ddiwedd y cyfnod gweithredu, a dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir a'r gyfraith berthnasol o ran y cytundeb gwahanu;
- *Cymal 29*: Adolygu deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu; a
- *Cymal 36*: Diddymu deddfiadau diangen neu rai sydd wedi'u disbyddu. a

Mae Atodiad A i Nodiadau Esboniadol y Bil newydd yn rhestru nifer o gymalau y mae angen cydsyniad arnynt, er i Lywodraeth y DU nodi'n wreiddiol yn y Nodiadau Esboniadol i'r fersiwn flaenorol o'r Bil nad oedd angen cydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig ar y cymalau hyn. Mae'r cymalau hyn yn cynnwys cymal 3 (pŵer atodol i Weinidogion y DU sy'n ymwneud â gweithredu), cymalau 5 a 6 (y broses gyffredinol o weithredu gweddill y Cytundeb Ymadael a chytundebau gwahanu EFTA yr AEE a'r Swistir), cymal 18 (pŵer i Weinidogion y Goron mewn cysylltiad â materion gwahanu), cymal 20 (darpariaeth ariannol), cymal 21 (rhoi pŵer i Weinidogion y DU weithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon) a chymal 28 (pwerau codi ffioedd ategol). Gofynnir am gydsyniad deddfwriaethol gan fod Llywodraeth y DU yn derbyn y bydd y cymalau hyn yn newid cymhwysedd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad neu'n deddfu mewn meysydd lle y mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol.

Nodir yn Nodiadau Esboniadol y Bil bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn cysylltiad â chymal 20 sy'n ymwneud â darpariaeth ariannol. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yr Alban hefyd yn nodi bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar y cymal hwn. Fodd bynnag, nid yw Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y cymal hwn. Mewn **sesiwn dystiolaeth** gyda'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar 6 Ionawr 2020, cytunodd y Prif Weinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor yn esbonio pam na wnaed sylwadau ar gymal 20 gan Lywodraeth Cymru yn ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Ymrwymodd y Prif Weinidog hefyd i amlinellu'r meysydd lle y mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno o ran pa

un a oes angen cydsyniad arnynt.

## Llywodraeth yr Alban

Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar 20 Rhagfyr 2019, gan argymhell na ddylai Senedd yr Alban roi ei chydsyniad i'r Bil:

## 5. Asesiad Effaith

Cyhoeddwyd **Asesiad Effaith y Bil** ar 21 Hydref 2019 ac roedd yn cyd-fynd â'r Bil blaenorol. Ni chyhoeddwyd Asesiad Effaith diwygiedig i gyd-fynd â'r Bil a gyflwynwyd ar 19 Rhagfyr 2019. Felly mae'r dadansoddiad hwn yn grynodeb o'r Asesiad Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Bil blaenorol.

Mae Asesiad Effaith y Bil blaenorol yn nodi costau a manteision gweithredu pob agwedd ar y Cytundeb Ymadael drwy ddeddfwriaeth. Mae **Nodiadau Esboniadol** y Bil blaenorol yn nodi, gan fod modd newid y Cytundeb Ymadael mewn rhai achosion penodol a chyfyngedig, nad yw'r dadansoddiad yn asesiad o'r Cytundeb Ymadael llawn. Nid oedd yr Asesiad Effaith yn cynnig asesiad o effaith ymadael â'r UE, y Cytundeb Ymadael yn gyffredinol na'r fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

### Barn y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio ar Asesiad Effaith y Bil

Corff annibynnol yw'r Pwyllgor Polisi Rheoleiddio. Fe'i noddir gan Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU ac mae'n asesu effaith cynigion rheoleiddio a dadreoleiddio newydd ar yr economi, busnesau, y gymdeithas sifil, elusennau a sefydliadau anllywodraethol eraill. Mae'n asesu ansawdd y dystiolaeth a'r gwaith dadansoddi a ddefnyddir i lywio cynigion rheoliadol, ac yn darparu cyngor ar ffurf 'barn' sy'n cynnwys cyhoeddi 'sgôr' i amlinellu eu hasesiad.

Yn ei **asesiad** o Asesiad Effaith y Bil blaenorol, nododd y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio y byddai'n fanteisiol cynnwys gwell tystiolaeth yn nadansoddiad y Llywodraeth o effaith y Bil, i'r lefel y byddai'r Pwyllgor yn disgwyl ei gweld fel arfer. Hefyd, cyhoeddodd y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio 'farn heb sgôr' ar Asesiad Effaith y Bil. Esboniodd y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio mai'r rheswm iddo gymryd y penderfyniad eithriadol i beidio â sgorio'r asesiad effaith oedd er mwyn cydnabod yr amgylchiadau unigryw sydd wedi atal yr Adran rhag llunio asesiad effaith manylach ar agweddau'r Bil.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio **ddatganiad** ar 20 Rhagfyr 2019 yn nodi nad oedd wedi cael Asesiad Effaith diwygiedig eto a oedd yn adlewyrchu unrhyw gostau a buddion ychwanegol yn sgil y Bil diwygiedig a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr. Bydd y Pwyllgor Polisi Rheoleiddio yn cyhoeddi barn ddiwygiedig os cyhoeddir Asesiad Effaith newydd.

## Cost

**Yr amcangyfrif o gost net y Bil blaenorol oedd £167.1 miliwn dros 10 mlynedd yn nhermau gwerth presennol.** Roedd y rhan fwyaf o'r costau yn ganlyniad i sefydlu'r Awdurdod Monitro Annibynnol ar hawliau Dinasyddion, a fydd yn monitro'r gwaith o weithredu a chymhwyso'r rhannau o'r Cytundeb Ymadael a Chytundeb Gwahanu EFTA yr AEE sy'n ymwneud â hawliau dinasyddion. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y disgwylir i'r Awdurdod Monitro Annibynnol gostio £146 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd, ac amcangyfrifir cyfanswm o tua £14.86 miliwn o gostau rhedeg bob blwyddyn.

Yn ôl yr Asesiad Effaith, y costau ariannol eraill fyddai'r costau posibl i ddeiliaid hawliau eiddo deallusol. Amcangyfrifir y bydd y costau hynny tua £2.4 miliwn y flwyddyn neu £22.1 miliwn dros 10 mlynedd yn nhermau gwerth presennol.

Ni chafodd holl elfennau ac effeithiau eraill y Bil eu meintoli yn yr Asesiad Effaith. Darparwyd tablau cryno a oedd yn egluro pam nad oedd modd amcangyfrif costau effeithiau ac elfennau eraill y Bil. Mewn rhai achosion darparwyd asesiad ansoddol o'r effeithiau.

## Senario dim cytundeb

Roedd dadansoddiad cefndirol Asesiad Effaith y Bil yn cynnwys disgrifiadau o senario dim cytundeb er mwyn rhoi cyd-destun yr effaith bosibl pe na bai'r Bil blaenorol yn cael ei basio. Amlinellir yr effeithiau economaidd hirdymor posibl yn sgil senario dim cytundeb yn **Nadansoddiad Economaidd Hirdymor** Llywodraeth y DU ar Ymadael â'r UE. Yn ôl yr Asesiad Effaith, byddai Brexit heb gytundeb yn arwain at rywfaint o aflonyddwch byrdymor, ond nid oedd yr effeithiau na'r costau hyn wedi'u meintoli.

## Y setliad ariannol

Mae'r Cytundeb Ymadael yn nodi sut y bydd y DU a'r UE yn setlo eu rhwymedigaethau ariannol sy'n weddill i'w gilydd, sy'n codi o gyfranogiad y DU yng nghyllideb yr UE ac elfennau ehangach o'i haelodaeth o'r UE. Roedd **rhagolwg diweddaraf** y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Hydref 2018 yn tybio y byddai'r DU wedi ymadael â'r UE ar 29 Mawrth 2019. Roedd y rhagolwg hwnnw'n amcangyfrif setliad ariannol o £38.7 biliwn.

## Y cyfnod gweithredu

Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol yn y DU o dan y telerau a nodir yn y Cytundeb Ymadael. Felly yn ystod y cyfnod hwn, bydd trefniadau cyfredol y DU â'r UE yn parhau, ac yn ôl Asesiad Effaith y Bil ni fydd hyn yn creu unrhyw gostau ychwanegol.

## Y Protocol Diwygiedig ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon

### Tollau

O ran y mesurau newydd yn y Protocol sy'n golygu y bydd angen gwiriadau tollau ar fasnach rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, roedd yr Asesiad Effaith yn nodi y byddai'n rhaid i fusnesau ddarparu rhywfaint o wybodaeth yn electronig yn sgil symud nwyddau o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau data, roedd yr Asesiad Effaith yn nodi na fu'n bosibl cyfrifo'r costau cysylltiedig i fusnes.

Bydd angen cwblhau datganiadau mewnforio a datganiadau cryno ynghylch mynediad ar gyfer nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon gan y bydd y DU yn defnyddio cod tollau'r UE yng Ngogledd Iwerddon. Disgwylir i hyn arwain at gostau gweinyddol ychwanegol i fusnesau. Roedd Asesiad Effaith y Bil blaenorol yn nodi nad yw'n bosibl amcangyfrif y costau gweinyddol cysylltiedig i fusnes oherwydd cyfyngiadau data ynghylch nifer a natur y llwythi o nwyddau sy'n cael eu symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio at yr **asesiad effaith** a luniwyd gan Gyllid a Thollau EM sy'n amcangyfrif y bydd y gost rhwng £15 a £56 fesul datganiad.

### Rheoleiddio Nwyddau

O dan y cynigion ar gyfer y parth i reoleiddio ynys gyfan Iwerddon, bydd yn rhaid i Ogledd Iwerddon barhau i gydymffurfio â rhai o reolau Marchnad Sengl yr UE ar gyfer nwyddau. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau ynghylch mesurau bwyd-amaeth, mesurau glanweithiol a mesurau ffyto-iechydol, yn ogystal â rhoi nwyddau a weithgynhyrchwyd ar y farchnad. Felly bydd yn rhaid i nwyddau sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon fodloni gofynion holl ddeddfwriaeth berthnasol yr UE.

Mewn perthynas â'r gwiriadau rheoliadol ar gyfer nwyddau bwyd-amaeth sy'n symud o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, roedd yr Asesiad Effaith yn nodi:

Agri-food goods moving from Great Britain into Northern Ireland would need to be notified to the relevant authorities before entering Northern Ireland and would be subject to checks including identity, documentary and physical checks by UK authorities as required by the relevant EU rules.

Byddai hefyd yn ofynnol i nwyddau bwyd-amaeth sy'n dod i mewn i Ogledd Iwerddon o Brydain Fawr wneud hynny drwy Safleoedd Archwilio Ffiniau neu Bwynt Mynediad Dynodedig, yn ogystal â darparu rhywfaint o ddogfennaeth i sicrhau cydymffurfiaeth rheoliadol. Rhagwelir y byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol i fusnesau. Fodd bynnag, ni roddwyd symiau ar gyfer y costau hyn yn yr Aseiad Effaith oherwydd y gallai penderfyniadau ynghylch polisi rheoleiddio yn y dyfodol, yn ogystal â pherthynas y DU â'r UE yn y dyfodol, effeithio arnynt.

## 6. Y camau nesaf

Bydd y Bil yn cael ei drafod yn Nhŷ'r Cyffredin gan Bwyllgor y Tŷ Cyfan ar 7 a 8 Ionawr 2020. Mae'r ddadl ynghylch y Trydydd Darlleniad yn debygol o gael ei chynnal ar 9 Ionawr.